Cân y Cardiau

1. Cardiau Nadolig,
   Rhai mawr a rhai bach,
   Yn barod i'r postmon
   Eu rhoi yn ei sach.

2. Llun coeden Nadolig,
   A llun robin goch
   Llun celyn a chracer,
   Llun eglwys a chloch.

3. Llun twrci a phwdin
   A llun Santa Clos
   Yn hedfan drwy'r awyr
   Yn nh'wyllwch y nos.

4. Cardiau i'w hanfon
   I bob rhan o'r byd;
   Rhaid brysio i'w postio
   I gyrraedd mewn pryd.

   Cardiau Nadolig,
   Rhai mawr a rhai bach,
   Yn barod i'r postmon
   Eu rhoi yn ei sach.